

EITEM

CYFARFOD	PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PWLLELI
DYDDIAD	04 TACHWEDD, 2008
TEITL	Cynllun Academi Hwyllo Cenedlaethol Cymru a Chanolfan Digwyddiadau
PWRPAS	I gyflwyno manylion cysyniad Academi Hwyllo Cenedlaethol Cymru a Chanolfan Digwyddiadau ym Mhwllheli
ARGYMHELLIAD	Datgan cefnogaeth mewn egwyddor a gofyn i swyddogion ymgymryd â gwaith rhagbaratoi pellach.
AWDUR	Sioned E. Williams, Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio
ARWEINYDD PORTFFOLIO	Y Cynghorydd Dewi Lewis

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Cyflwynwyd adroddiad i am y syniad o ddatblygu Academi Hwyllo a Digwyddiadau ym Mhwllheli i Fwrdd y Cyngor ar 28ain o Dachwedd 2006. Penderfynwyd bryd hynny datgan cefnogaeth mewn egwyddor a gofyn i swyddogion fwrw ymlaen â'r gwaith rhagbaratoi a chynllunio cyn cyflwyno adroddiad pellach ar y cynllun arfaethedig.
- 1.2. Pwrpas yr adroddiad yma yw cyflwyno manylion o'r gwaith sydd wedi ei gyflawni ers hynny, ac i argymhell camau nesaf er mwyn gwneud gwaith pellach ar y cynllun.

2. CEFNIDIR

- 2.1. Ers datblygu'r Hafan yn 1994 mae Pwllheli wedi esblygu yn un o brif leoliadau hwyllo ym Mhrydain. Mae hefyd yn leoliad sydd wedi cynnal nifer sylweddol o gystadlaethau hwyllo llwyddiannus dros y blynyddoedd diwethaf gan godi proffil rhyngwladol yr ardal.
- 2.2. Un o brif nodweddion Pwllheli fel canolfan hwyllo yw'r mynediad hwylus i rai o'r dyfroedd hwyllo gorau ym Mhrydain a'r safon uchel i gynnal cystadlaethau cenedlaethol a rhyngwladol. O fewn y byd hwyllo ystyrir Pwllheli yn un o dri lleoliad pwysicaf Prydain gyda'r gallu i gynnal digwyddiadau sylweddol ar gyfer cychod bach dingi (y ddau leoliad arall yw Weymouth yn Lloegr a Largs yn yr Alban). Cyniga'r rhinweddau arbennig yma gyfleon a photensial sylweddol i Bwllheli.
- 2.3. Yn ystod 2007, yn ogystal â chynnal nifer helaeth o gystadleuaeth llai, llwyddodd Clwb Hwyllo Pwllheli hefyd i gynnal 9 pencampwriaeth sylweddol, ac amcangyfrifir fod hyn wedi cyfrannu tuag at dros 20,000 o nosweithiau gwely gan arwain at wariant o tua £1.65m i'r economi leol (amcangyfrif y Clwb Hwyllo). Dros yr haf eleni, cynhaliwyd dros 10 pencampwriaeth sylweddol, sydd yn cynnwys pencampwriaethau byd a chenedlaethol.

- 2.4. Cafodd safon arbennig dyfroedd hwylio yr ardal eu cydnabod yn ddiweddar hefyd wrth i Bwllheli ennill statws fel yr unig ganolfan hyfforddi hwylio yng Nghymru ar gyfer Gemau Olympaidd Llundain 2012.
- 2.5 Er gwaethaf llwyddiant trefnu, cynnal a rheoli digwyddiadau ym Mhwllheli, mae'r cyfyngiadau sydd ar y cyfleusterau ac adnoddau ar y tir ac yn y dŵr, yn fwyfwy amlwg. Mae buddsoddiadau i ganolfannau hwylio pwysig eraill y Deyrnas Unedig yn golygu ei bod yn gynyddol anodd i barhau i gynnal ac i ddenu cystadlaethau mawr, ychwanegol, ac o safon i Bwllheli. O ganlyniad mae cyfyngiadau sydd ar y cyfleusterau presennol yn lyffethair ar allu'r ardal i wireddu potensial sy'n cael ei gynnig gan yr adnoddau naturiol.
- 2.6 Yn seiliedig ar yr uchod, cafodd cyfleoedd cychwynnol eu hadnabod mewn perthynas â datblygu Academi Hwyllo a Chanolfan Ddigwyddiadau fyddai'n adeiladu a manteisio ar gryfderau'r ardal er mwyn ymateb i anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach, megis :
- Adeiladu ar fuddsoddiadau a llwyddiannau morwrol Pwllheli a'i sefydlu fel canolfan hwylio rhyngwladol gyda chyfleusterau pwrpasol i ddenu a chynnal cystadlaethau o'r safon uchaf
 - Uchafu'r budd economaidd o ddenu cystadlaethau, digwyddiadau a chychod teithiol i'r ardal
 - Hyrwyddo gweithgareddau hwylio ar bob lefel gallu a chymhwyster, drwy gynnig cyrsiau, hyfforddiant a digwyddiadau i gynnwys pawb, gan gynnwys rhai gydag anawsterau
 - Hyrwyddo ac annog defnydd o'r iaith Gymraeg ym mhob agwedd o'i weithgareddau
 - Darparu adnodd i'r gymuned i'w defnyddio, er enghraifft drwy ddarparu cyfleusterau a fyddai'n galluogi ysgolion gynnwys hwylio a gweithgareddau dŵr fel rhan o'u gweithgareddau awyr agored
- 2.7 Fel ag amlinellwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Bwrdd, rhagwelwyd y byddai'r cynllun arfaethedig yn cynnwys agweddau cyfalaf megis gwaith carthu a darparu angorfeydd a chyfleusterau cysylltiedig yn yr harbwr; ynghyd ag adeilad arfaethedig ar gyfer yr Academi.

3. GRŴP TECHNEGOL CYNLLUN ACADEMI HWYLLO PWLLHELI

- 3.1. Yn dilyn penderfyniad blaenorol y Bwrdd, a gan adeiladu ar drafodaethau cychwynnol gyda aelodau Clwb Hwyllo Pwllheli, fe sefydlwyd Grŵp Technegol er mwyn ymchwilio i'r cyfleoedd o ddatblygu'r prosiect. Grwp anffurfiol ydyw a'i brif rôl yn cynnwys pwyso a mesur gwahanol faterion, heriau, cyfleon a bygythiadau a chynnig mewnbwn technegol wrth ddatblygu manylion y cynllun.
- 3.2. Yn unol â'i rôl, mae cyfarfodydd o'r Grwp wedi cynnwys cynrychiolaeth cyrff neu grwpiau gydag arbenigeddau neu wybodaeth dechnegol perthnasol gan gynnwys

Cyngor Gwynedd (swyddogion o Wasanaethau amrywiol)
Clwb Hwyllo Pwllheli
Coleg Meirion Dwyfor

Chwaraeon Dŵr Gogledd Cymru
Cymdeithas Hwyllo Cymru
Plas Menai
Llywodraeth Cynulliad Cymru (Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau)

- 3.3. Yn ystod y cyfarfodydd cychwynnol, cytunwyd ar Cynllun Prosiect fel strwythur ar gyfer y rhaglen waith. Yn fras iawn, fe gafodd y prif gamau isod eu hadnabod ar gyfer ymgymerydd â'r gwaith rhagbaratoi:

Cam 1 - Dichonoldeb Cychwynnol
Cam 2 – Paratoi Cynigion Cysyniad
Cam 3 – Paratoi Dyluniad Manwl
Cam 4 – Paratoi Manylion Llawn

- 3.4. Mae'r camau hyn hefyd yn adlewyrchu natur y cynllun, a'r ystod o ystyriaethau y byddai angen eu hymgorffori i'r prosiect.

Cam 1 – Dichonoldeb Cychwynnol

- 3.5 Fel cam cyntaf fe baratowyd asesiad dichonolrwydd mewn perthynas â phrif agweddau o'r cynllun oherwydd cyfyngiadau technegol ac amgylcheddol fyddai'n ystyriaethau allweddol i ddatblygiad o'r fath. Fe baratowyd yr asesiad yma ar ffurf Astudiaeth Effaith Siltio ac Afon oedd yn cynnwys archwiliad o wely'r harbwr. Fe baratowyd yr asesiad gan gwmni Mouchel Parkman, Ymgynghorwyr Peirianeg Sifil, gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cenedlaethol Cymru.

- 3.6 Dangosodd yr archwiliad mai'r prif ddeunydd fyddai angen ei garthu o'r harbwr ar gyfer gwaith cyfalaf fyddai tywod a graean gyda chyfran llai o glai. Er fod posibilrwydd wedi ei nodi y gallai sianel dŵr isel yr Afon Erch newid ei chwrs ar draws y blaendraeth, casgliad yr adroddiad oedd na fyddai unrhyw gynnydd mewn siltio o'r Afon Erch na'r Afon Rhyd-gir yn debygol. Bu i'r adroddiad hefyd gadarnhau, pe byddai angen, byddai modd ymgorffori gwaith trin afon er mwyn atal y sianel newid ei chwrs.

- 3.7 Casgliad yr astudiaeth gychwynnol felly oedd y byddai datblygiad ar raddfa gyfyngedig i'r gogledd o'r Hafan yn ymarferol gan gymryd i ystyriaeth cyfyngiadau technegol ac amgylcheddol.

Cam 2 – Paratoi Cynigion Cysyniad

- 3.8 Gan adeiladu ar gasgliadau Astudiaeth Effaith Siltio ac Afon, fe aethpwyd ati yn ddiweddarach yn 2007 i baratoi briff ar gyfer comisiynu cynigion cysyniad. Yn dilyn proses dendro, bu i'r Cyngor (gyda chymorth ariannol Llywodraeth Cynulliad Cymru) benodi tîm proffesiynol Marina Projects (gyda Morgan Carey Architects a Peter Brett Associates) i ymgymerydd â'r gwaith.

- 3.9 Fe dderbyniwyd astudiaeth derfynol yr ymgynghorwyr fis Awst eleni, ac mae gwybodaeth bellach am gasgliadau'r gwaith wedi eu cynnwys yn rhan nesaf o'r adroddiad yma.

4. **ASTUDIAETH CYNIGION CYSYNIAD AR GYFER ACADEMI HWYLIO GENEDLAETHOL CYMRU A CHANOLFAN DDIGWYDDIADAU YM MHWLLHELI**

4.1 Yn seiliedig ar ofynion y briff, mabwysiadwyd dull safonol a chynhwysfawr gan yr ymgynghorwyr ar gyfer y gwaith o ddatblygu cynigion cysyniad, gan gymryd golwg gwrthrychol ac annibynnol ar y cyfloed, anghenion a syniadau cychwynnol oedd wedi eu hadnabod. I'r perwyl yma, roedd y broses o baratoi'r gwaith fel a ganlyn :

- I. Casglu gwybodaeth gwaelodlin, paratoi asesiad o'r safle, ymchwil marchnad ac ati
- II. Cynnal ymgynghoriadau a chasglu ymarfer da gan fudd-deiliaid
- III. Adnabod cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a chyfyngiadau
- IV. Llunio Gweledigaeth ac Amcanion penodol ar gyfer y Cynllun
- V. Adnabod opsiynau cysyniad datblygu posibl
- VI. Argymhell a datblygu Cysyniad Ffafredig (gan baratoi cynllun busnes amlinellol, strwythurau rheoli ac ariannol, chanllaw dylunio ac ati)
- VII. Argymhell Rhaglen Weithredu ar ddatblygiad pellach y cysyniad

4.2 Yn ganolog i'r broses o ddatblygu cynigion cysyniad oedd llunio Gweledigaeth ac Amcanion ar gyfer y cynllun (a fyddai yn seiliedig ar yr asesiadau ac ymgynghoriadau cychwynnol ac un llaw, ac yn prif ystyriaeth wrth asesu gwahanol opsiynau ar y llaw arall). Mae'r Weledigaeth ar gyfer y cynllun fel a ganlyn :

“Datganiad o Weledigaeth

Gweledigaeth y cynllun yw creu Academi Hwyllo Genedlaethol Cymru a Chanolfan Ddigwyddiadau fyddai'n uchafu'r potensial a gynigir i gael lleoliad naturiol a dyfroedd hwyllo arbennig sydd i'w canfod o amgylch Pwllheli. Bydd y cyfleusterau yn datblygu ac yn adeiladu ar enw da presennol y lleoliad, ac yn cadarnhau statws Pwllheli fel lleoliad hwyllo dingi rhyngwladol.

Fel Canolfan Ragoriaeth ar gyfer hyfforddiant hwyllo, bydd yn cynnig cyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer hwylywyr o bob safon a gallu. Yn ychwanegol i gynnal digwyddiadau dingis cenedlaethol a rhyngwladol, bydd y cyfleusterau hefyd yn darparu ar gyfer digwyddiadau cychod cilbren, regatas hwyllo a gweithgareddau chwaraeon dŵr eraill.

Bydd y cyfleuster yn arddangos hunaniaeth arbennig drwy hyrwyddo'r iaith a diwylliant Cymraeg. Ymhellach, drwy gyfranogiad ar y cyd, bydd y cyfleuster yn gynladwy ac yn creu budd economaidd tymor hir i gymunedau lleol, a bydd ei swyddogaeth amlwrpas yn darparu ar gyfer defnydd y gymuned leol, busnesau, ysgolion a darparwyr hyfforddiant eraill.

Bydd y Ganolfan yn cyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad Harbwr Pwllheli ac yn cydweddu gyda Hafan Pwllheli drwy ddarparu angorfeydd newydd a chyfleusterau ar y tir ar gyfer hwylywyr sydd yn ymweld”.

- 4.3 Ynghlwm i'r Weledigaeth mae Amcanion penodol wedi eu hadnabod ar gyfer y Cynllun sydd wedi eu cynnwys fel Atodiad 1.
- 4.4 Wrth geisio ymateb i'r Weledigaeth a'r Amcanion hyn, cafodd nifer o wahanol opsiynnau posib eu hadnabod. Ystyriwyd rhinweddau'r opsiynnau hyn yn erbyn eu gallu i wireddu'r weledigaeth / amcanion, a thrwy dadansoddiad fanwl, fe gafodd Opsiwn Ffafredig ei adnabod.

Amlinelliad o'r Cynigion Cysyniad (Opsiwn Ffafredig)

- 4.5 Dylid pwysleisio mai cynigion cysyniad yn unig sydd wedi eu paratoi yn hytrach na chynigion manwl. Fodd bynnag, mae'r cysyniad yn ymgorffori'r agweddau canlynol :
- i) Adeilad Academi newydd wedi ei leoli ger y lithfra lansio dingis presennol ar dir a ddefnyddir ar hyn o bryd fel ffordd a rhan o gompownd. Byddai lleoliad o'r fath yn golygu na fyddai angen croesi'r ffordd gan leihau gwrthdaro gyda thraffig. Byddai'r lleoliad hefyd yn cynnig cyfeiriadedd solar da ynghyd a chynnig golygfeydd o'r adeilad dros y bae lle y cynhelir wahanol gystadlaethau. Gallai'r adeilad yma gynnwys cyfleusterau megis ystafelloedd darlithio 'gwlyb', cawodydd, toiledau, ystafelloedd pwyllgor ar gyfer cystadlaethau, gweithdy, ffreutur, gofod ar gyfer mesur hwyliau, swyddfa'r wasg, ystafell rheithgor, ystafelloedd darlithio / cyfarfod amlbwrpas.
 - ii) Addasu llwybr y ffordd bresennol i redeg yn gyfochrog ar ymyl yr harbwr hyd ar adeilad presennol yr Hafan cyn troi ag ail-ymuno gyda'r ffordd bresennol. Gellid defnyddio'r tir wedi ei greu i'r gorllewin o'r ffordd newydd ar gyfer parcio, a byddai tir ychwanegol i'r dwyrain ar gyfer compownd ddigwyddiadau a pharcio.
 - iii) Datblygiad angorfeydd newydd i'r gogledd o'r Hafan, gyda doc ar gyfer cychod cefnogol (allai hefyd gael ei ddefnyddio i lansio dingis), pontydd mynediad, craeniau bychan ar gyfer lansio neu godi cychod (cenogol neu hwylio), ac angorfeydd hyblyg wedi eu gwahanu gan droedleoedd. Tra fod y briff yn wreiddiol wedi cyfeirio at 150 o angorfeydd, mae'r argymhellion yn cyfeirio at osodiad llawer yn fwy hyblyg sydd yn adlewyrchu eu pwrpas.
 - iv) Gwaith carthu yn yr harbwr ar gyfer ardal yr angorfeydd arfaethedig.
 - v) Pe datblygir adeilad newydd i'r Academi, argymhellir trosglwyddo swyddogaethau o'r ganolfan bresennol gan greu gofod newydd allai gael ei ddefnyddio ar gyfer llety 'bunkhouse' neu hyfforddiant er enghraifft.
 - vi) Cyfle i uwchraddio a lledu'r lithfra bresennol sy'n gwasanaethu'r Hafan.
- 4.6 Mae cynllun sy'n crynhoi'r cynigion cysyniad wedi ei gynnwys fel Atodiad 2.
- 4.7 Mae cynllun busnes amlinellol 10 mlynedd wedi ei baratoi sydd yn seiliedig ar y cysyniad uchod, ac yn ystyried datblygiadau ar y tir yn ogystal â'r harbwr. Tra'n rhagdybio y byddai costau cyfalaf cychwynnol yn ddibynnol ar gefnogaeth ariannol grantiau, mae'r gwerthusiad ariannol yn dod i'r casgliad y gallai'r datblygiad fod yn ariannol hyfyw ond yn nodi pwysigrwydd yr ystyriaethau isod :

- Fod yr angorfeydd arfaethedig yn allweddol, ac angen iddynt fod yn hyblyg er mwyn ddarparu ystod o swyddogaethau a ffrydiau incwm
 - Byddai'r cynllun yn derbyn incwm misol o'r angorfeydd
 - Fod denu amrywiaeth o farchnadoedd hwylio a grwpiau cymunedol lleol i ddefnyddio'r ganolfan yn allweddol
 - Fod cefnogaeth, gwaith a gweithgareddau'r Clwb Hwyllo yn cyfrannu at hyfywdra'r cynllun.
- 4.8 Mae'r astudiaeth hefyd wedi rhoi ystyriaeth i opsiynnau rheolaeth ar gyfer y cynllun, gan ystyried trefniadau mewn lleoliadau eraill drwy'r Deyrnas Unedig, swyddogaeth y cynllun, ynghyd a'r wahanol gyrrff a grwpiau fyddai'n debygol o'i defnyddio. O ganlyniad, argymhellir fod y gwahanol bartneriaid yn dod at eu gilydd i sefydlu cwmni heb elw (not for profit) megis "Ymddiriedolaeth Academi Hwyllo Cenedlaethol Cymru". Byddai angen gwaith pellach er mwyn paratoi, negodi a chytuno ar y trefniadau rheoli a gweithredol.
- 4.9 Mae'r Astudiaeth hefyd yn argymhell Rhaglen Weithredu ar gyfer datblygiad pellach y cynllun sy'n cyfeirio ar y rhannau canlynol :
- Adnabod ffynonellau ariannu a sicrhau budd economaidd y cynllun
 - Sefydlu endid i ddatblygu a rheoli'r cynllun gan gynnwys gwaith cyfreithiol rheolaeth tir;
 - Dyluniadau Manwl;
 - Aseidiadau ac ymgynghoriadau;
 - Caniatadau (gan gynnwys caniatâd cynllunio);
 - Gweithredu tendr;
 - Gwaith gweithredu ac adeiladu
- 4.10 Mae'r gweithgareddau presennol yn seiliedig ar fanteision a gynigir gan yr ardal o'i gwmpas, gan gynnwys y gosodiad naturiol a'r dyfroedd hwylio arbennig sydd ar gael. Agwedd allweddol o'r opsiwn ffafredig yw'r defnydd a wneir o'r manteision naturiol hyn, a fyddai'n hanfodol os yw'r cynllun am fod yn gynaliadwy, ac os yw'r cyfleoedd ychwanegol a gynigir gan y cynllun am eu gwireddu. Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys:
- Potensial ar gyfer ystod o ddefnydd cymunedol
 - Darpariaeth cyfleusterau addysg ag hyfforddiant
 - Hyrwyddo, annog a chefnogi defnydd o'r iaith Gymraeg a diwylliant lleol
 - Uchafu'r budd economaidd a chryfhau'r cysylltiadau gyda thref Pwllheli
- 4.11 Casgliad y gwaith oedd bod cyfiawnhad dros symud y cynllun ymlaen i'r cam datblygu manwl. Mae cyfle gwirioneddol sydd ym Mhwllheli i weithio tuag at Weledigaeth Academi Hwyllo Genedlaethol Cymru a Chanolfan Ddigiwyddiadau wedi ei adnabod. Mae Crynodeb Weithredol sy'n amlinellu prif gasgliadau o'r Astudiaeth Cynigion Cysyniad wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.

5. CASGLIADAU AC YSTYRIAETHAU I GYNGOR GWYNEDD

- 5.1 Fe ddylid pwysleisio eto mai cysyniad yn unig yw'r bwriad ar hyn o bryd, ac y byddai angen gryn waith pellach i ddatblygu'r manylion yn llawn. Er gwaethaf hyn, mae'n fwriad sy'n ymddangos yn un cyffrous iawn, ac yn uchelgeisiol allai ymateb i anghenion sydd wedi eu hadnabod.
- 5.2 Drwy waith y Grwp Technegol, fe geisiwyd mewnbwn swyddogion o wasanaethau neu adeiniau perthnasol o'r Cyngor gan gynnwys Morwrol, Amddiffyn yr arfordir, Economi ac adfywio, Cynllunio a Thrafnidiaeth ac Eiddo. O ystyried fod y Cyngor yn berchen ar y safle ac yn gyfrifol am yr Hafan, gwasanaeth morwrol a chynnal a chadw'r harbwr mae datblygiad y cynllun yn berthnasol iawn i nifer o'i weithgareddau. Tra byddai llwyddiant cynllun o'r fath yn ddibynnol ar fewnbwn nifer o gyrff allanol, mae'n anorfod mai'r Cyngor fyddai'n gyfrifol am arwain ar ddatblygu'r cysyniad ymhellach.
- 5.3 Pan adroddwyd ar y syniad yn wreiddiol i'r Bwrdd yn Nhachwedd 2006, fe nodwyd yn glir fod cyfyngiadau ariannol ar y Cyngor yn golygu na fyddai'r Cyngor mewn sefyllfa i ymrwymo adnoddau sylweddol i'r cynllun. Mae'r rhagdybiaeth yma wedi ei adrodd yn gyson dros y cyfnod, ac mae'r astudiaeth hefyd yn cadarnhau y byddai'r cynllun yn ddibynnol ar raglenni ariannol allanol. Mae'n bwysig felly bod unrhyw ddisgwyliadau allai fod ynghlwm i'r cynllun yn cymryd ystyriaeth lawn o'r sefyllfa sydd ohoni.
- 5.4 O'r gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma, mae'n amlwg fod cyfle'n bodoli i adeiladu ar lwyddiant gweithgaredd a digwyddiadau sy'n cymryd lle ym Mhwllheli a bod potensial yma i'w gadarnhau fel lleoliad ar gyfer digwyddiadau o statws rhyngwladol. Mae'r cysyniad yn amlygu cyfleoedd allai ymateb i anghenion economaidd, cymdeithasol ac addysgol, ynghyd a'r angen i uwchraddio'r cyfleusterau presennol yn sgil cystadleuaeth cynyddol o gyrchfannau eraill y DU.
- 5.5 Mae Gweledigaeth ac Amcanion wedi eu hadnabod, ynghyd â chynigion cysyniad ar gyfer eu gwireddu sydd wedi cymryd i ystyriaeth nodweddion cymdeithasol ac economaidd yr ardal, wahanol gyfyngiadau i ddatblygiad, galw'r farchnad a chyllidwyr posib, ynghyd a'r angen i sicrhau fod y cynllun yn gyraeddadwy, yn ariannol hyfyw ac yn gynaladwy ym mhob agwedd.

6. ARGYMHELLION

- 6.1 Yn seiliedig ar yr uchod argymhellir fod :
- 6.1.1 Bwrdd y Cyngor yn datgan cefnogaeth mewn egwyddor i gynigion cysyniad Cynllun Academi Hwyllo Cenedlaethol Cymru a Chanolfan Ddigwyddiadau Pwllheli
- 6.1.2 Bwrdd y Cyngor yn datgan cefnogaeth i swyddogion ymchwilio ac ymgeisio am gefnogaeth ariannol o ffynonellau grantiau i sicrhau ymgymryd â'r gwaith rhagbaratoi pellach yn unol â'r rhaglen weithredu arfaethedig
- 6.1.3 Fod adroddiad pellach ar fanylion y cynllun i'w gyflwyno i'r Bwrdd yn dilyn gwaith pellach ar y cysyniad arfaethedig.

Atodiadau

Atodiad 1 : Amcanion y Cynllun

Atodiad 2 : Cynllun yn dangos Cynigion Cysyniad.

Atodiad 3 : Crynodeb Gweithredol o'r Astudiaeth Cynigion Cysyniad

Sioned E. Williams
Pennaeth Gwasanaeth
SEW/nwhe/12/09/08

A. Barn yr Aelod Lleol:

B. Barn y Swyddogion Statudol:

1. Prif Weithredwr:

“Yn amlwg, mae'r cysyniad o'r Academi yn un allai adeiladu ar gryfderau ardal Pwllheli a mae'n ymddangos yn gyfle cyffrous a diddorol. Wedi dweud hynny, mae sawl cam cyn y gellir dweud i sicrwydd y gellir symud ymlaen yn y ffordd hwn a nid y lleiaf yw'r pecyn ariannol ar gyfer y costau cyfalaf o greu unrhyw ddarpariaeth a wedyn sicrhau hyfywdra'r ymddiriedolaeth a fyddai'n rhedeg y cyfleusterau arfaethedig.

Mae'r adroddiad yn ceisio am yr hawl i fynd i'r cam nesaf o geisio cefnogaeth i waith dichonolrwydd. Mae, wrth gwrs, yn bosib, y gallai'r cynigion ddisgyn ar nifer o gamau ar hyd y ffordd a bydd yn golygu blaenoriaethu gwaith ac amser swyddogion o'r Cyngor yn ystod y gwaith. Fodd bynnag, rhaid pwyso hynny yn erbyn yr ystyriaeth bod cyfle yma i gynnig datblygiad allai wireddu'r amcanion a nodir yn yr atodiad i'r adroddiad”.

2. Swyddog Monitro:

“Gan nodi mai cysyniad yn unig sydd yma ac mai cefnogaeth mewn egwyddor a ofynnir amdano nid oes gennyf unrhyw sylwadau o ochr priodoldeb”.

3. Prif Swyddog Cyllid:

“Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r argymhellion, lle gofynnir i Fwrdd y Cyngor gefnogi'r cysyniad mewn egwyddor.

Fodd bynnag, gan nad wyf wedi gweld cynllun busnes manwl, y mae'n gynamserol i mi ddatgan barn ar yr awgrym (sy'n rhan 4.7 o adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Economi ac Adfywio) “y gallai'r datblygiad fod yn ariannol hyfyw”.

C. Papurau Cefndir:

CH. Goblygiadau Polisi:

